Atodiad O - Adroddiad ar Broses Ymgynghori Biosffer Dyfi

Medi 8fed 2007

A Crynodeb
B Amserlen, adnoddau ac arolygiaeth
C Mai 2006 – Ebrill 2007
CH Mai a Mehefin 2007 yn cynnwys canlyniadau'r holiadur ymgynghorol
D Deiliaid diddordeb allweddol ac ymatebion corfforaethol
DD Tabl digwyddiadau cymunedol Gorffennaf 2006 – Medi 2007

A) Crynodeb

Mae proses ymrwymo cymunedol ardal Biosffer Dyfi wedi bod yn digwydd ers Ebrill 2006. Bu Delyth Richards ac aelodau o'r Bartneriaeth yn cyflwyno gwybodaeth am yr ardaloedd biosffer, yn trafod manteision posib a all ddod i'r ardal yn eu sgil ac yn gwrando ar ymateb pobl. Bu hyn yn digwydd ar ffurf cyflwyniadau i grwpiau, cyfarfodydd cyhoeddus, y wefan www.dyfibiosphere.org.uk a.y.b.

Rydym wedi bod yn ofalus rhag inni ddylanwadu ar yr ymateb trwy fod yn or-frwdfrydig; mae'n bwysig trafod ac ystyried amheuon ac ofnau. Rydym hefyd wedi pwysleisio fod cynnwys unrhyw gynllun gweithredu neu gynllun rheoli yn cael ei ffurfio ar y cyd gan ddeiliaid diddordeb, ac nid wedi ei gynnig mewn dull rhagnodol gan aelodau o'r Bartneriaeth.

O ganlyniad roedd y diffyg manylion yn y cynigion yn ei gwneud yn anodd i bobl ymateb ar y dechrau.

Yn gynnar ym Mai 2007 argraffodd y Bartneriaeth ddogfen ymgynghorol, mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod cyntaf ac yn cynnig opsiynau cadarnach i'w hystyried. Ar yr un pryd, ail gynlluniwyd y wefan ac fe ychwanegwyd Fforwm rhyngweithiol. Gofynnwyd i bobl ddychwelyd y ffurflen ymateb erbyn diwedd Mehefin os yn bosib.

Hyd yn hyn, bu ymateb y gymuned yn gadarnhaol dros ben. O'r holl dystiolaeth a gasglwyd dros y 12 mis diwethaf, dim ond dau berson a ymatebodd yn negyddol i'r fenter.

Doedd hyd yn oed yr ymateb negyddol hwn ddim yn un o ran egwyddor, ond yn hytrach o bryder na fyddai'r fenter werth yr holl wariant.

Yng Ngorffennaf bu Partneriaeth Biosffer Dyfi yn pwyso a mesur y dystiolaeth ac fe benderfynwyd fod y gefnogaeth yn ddigon cryf i gyfiawnhau gwneud y cais i UNESCO, fel y disgrifir mewn dogfen arall. Bydd cydweithrediad gan weddill y gymdeithas yn parhau i fod yn hanfodol, gan y bydd yr egwyddorion yn cael eu datblygu i fod yn gynllun gweithredu a bydd ffyrdd yn cael eu dyfeisio i sicrhau cydlyniad ac atebolrwydd da.

B) Amserlen, adnoddau ac arolygiaeth

- Ym 1998, wedi ymgynghori â deiliaid diddordeb allweddol, cynhyrchwyd adroddiad ar Warchodfa Biosffer Dyfi i Defra gan Sefydliad Newid Amgylcheddol Prifysgol Rhydychen.
- Yn Nhachwedd 2000, cynhaliodd ecodyfi gyfarfod cyhoeddus ym Machynlleth i godi ymwybyddiaeth am yr adolygiad oedd yn cael ei gynhyrchu gan Defra a'r Cynulliad ac am y manteision posib i'r ardal.
- Yn Nhachwedd 2002, mynychodd cynrychiolwyr gynhadledd i ddathlu cofrestru Braunton Burrows yn Warchodfa Biosffer 'fodern' gyntaf Prydain.
- Ym Mehefin 2004, cynhaliodd ecodyfi gynhadledd ym Machynlleth am Fiosfferau a Dyffryn Dyfi. Ariannwyd y gynhadledd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) ac fe gafwyd siaradwyr o Fiosfferau yn Entlebuch a'r Rhön. Daeth 80 o bobl i'r cyfarfod cyhoeddus fin nos, 65 o bobl yn y gynhadledd yn y dydd a 12 o bobl yn y daith maes hanner diwrnod. Roedd lefel yr ymateb a'r gefnogaeth yn uchel iawn.
- Yn Nhachwedd 2004, bu Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ecodyfi yn dechrau trafodaethau a arweiniodd i sefydlu Partneriaeth Biosffer Dyfi ym Mai 2005.
- Yn Ebrill 2006, cyflogwyd Swyddog Cyfathrebu â'r Gymuned gan ecodyfi ar ran y Bartneriaeth ac fe'i ariannwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Cafodd y cyfathrebu dilynol ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad trwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Adran Economi a Chludiant (olynydd Bwrdd Datblygu Cymru) a phwyllgor UNESCO Cymru.

C) Mai 2006 – Ebrill 2007

Cafwyd cyflwyniadau mewn 9 gwahanol ddigwyddiad cyhoeddus, nifer o glybiau, cymdeithasau a digwyddiadau gyda chefnogaeth gwaith cyfryngau ar adegau tyngedfennol.

Anfonwyd taflen i bob cartref a busnes yn yr ardal dros y gaeaf. Roedd yn cynnwys slip i'w ddychwelyd gyda sylwadau a chwestiynau neu i ofyn am wybodaeth bellach. Dosbarthwyd ail daflen debyg yn Ebrill 2007.

Er mai ar lafar y derbyniwyd y rhan helaeth o'r ymateb, fe dderbyniwyd dros 100 o ymatebion ysgrifenedig. Roedd hyn yn cynnwys tua 50 o'r slipiau o'r daflen gyntaf a 50 o daflenni ymateb o gyfarfodydd cyhoeddus a chyflwyniadau.

Roedd llawer o bobl yn wyliadwrus ac yn aros am fanylion pellach fel a gafwyd yn y ddogfen ymgynghorol, ond roedd yr holl ymateb ysgrifenedig yn gefnogol. Roedd llawer yn cynnwys sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol, rhai a gaiff eu hail gynhyrchu yn adran G isod. Mewn llawer o'r cyfarfodydd cyhoeddus cafwyd amheuon dechreuol a ddatblygodd i fod yn drafodaethau adeiladol am y manteision posib ac am sut i gael y broses i weithio.

CH) Ers cyhoeddiad y ddogfen ymgynghorol- Mai a Mehefin 2007

Pwrpas y ddogfen ymgynghorol oedd esbonio ymhellach beth yw Ardaloedd Biosffer, beth yw manteision posib gweithredu cynllun o'r fath yn Nyffryn Dyfi a beth yw'r opsiynau ar gyfer y camau nesaf. Yn gynwysedig ym mhob copi roedd holiadur i'w ddychwelyd trwy ddefnyddio cyfeiriad rhadbost. Wedi casglu a chymharu'r canlyniadau byddai'r Bartneriaeth yn dod i benderfyniad ynglŷn ag ail-gofrestru'r ardal fel Ardal Fiosffer fodern.

Anfonwyd y ddogfen trwy'r post ac e-bost i ddeiliaid diddordeb allweddol ac i eraill a ofynnodd am wybodaeth ar y mater. Fe'i trafodwyd mewn 6 cyfarfod cyhoeddus min nos a sesiynau 'galw heibio' prynhawn, yn ogystal â chyfarfodydd clybiau a chymdeithasau. Tynnwyd sylw at y mater hefyd trwy'r wasg a rhwydwaith e-bost.

Rydym wedi derbyn 160 o holiaduron hyd yn hyn sydd yn 7.3% o'r 2200 a ddosbarthwyd. O'r ymatebion roedd:

- 26 o Geredigion
- 30 o Wynedd
- 66 o Bowys
- 1 o Sir Amwythig

Roedd 37 yn ddi-gyfeiriad.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn. Dyma rai o'r prif ganlyniadau:

Adran 2.1

A ddylai Biosffer Dyfi fod yn gyfrifol am warchod asedau diwylliannol yn ogystal â rhai naturiol?

O'r 155 o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, rhoddodd 141 o bobl gylch am yr opsiwn 'dylai yn bendant' a 'dylai mae'n debyg'. Dim ond 2 o bobl oedd o'r farn 'na ddylid yn bendant' warchod yr asedau diwylliannol.

Adran 2.3

A ddylai Biosffer Dyfi fabwysiadu'r weledigaeth a'r amcan a ddisgrifiwyd?

Ymatebodd 153 o bobl i'r cwestiwn. Fel gyda'r cwestiwn blaenorol roedd canran helaeth, sef 144 o bobl, o'r farn y dylai'r Bartneriaeth fabwysiadu'r weledigaeth a'r amcanion a ddisgrifiwyd. Un person yn unig oedd yn gwrthwynebu.

Adran 3.2

A yw'r egwyddorion hyn yn briodol?

Atebodd 144 y cwestiwn, ac unwaith eto roedd y mwyafrif yn dweud 'ie yn bendant' neu 'ie mae'n debyg' – cyfanswm o 137 o bobl.

Adran 3.7

A yw'n briodol i gyfran mor uchel o'r ariannu 'craidd' ddod o arian cyhoeddus?

Roedd mwy o amrywiaeth yn yr 143 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif (109) yn dweud 'ydi', ond roedd 24 yn teimlo nad oeddynt yn gwybod ac 8 yn dweud 'nac ydi'.

Adran 4.6 Beth ddylid galw'r dynodiad?
Rhoddwyd cyfle i bobl Dyffryn Dyfi i ddewis enw addas i'r ardal Biosffer. Dyma'r canlyniadau:

- *Bro'r Biosffer Dyfi Biosphere Area*

Doedd hwn ddim yn ddewis poblogaidd gan y gymuned. Roedd 63 allan o'r 129 o bobl yn erbyn yr enw. 36 yn unig oedd drosto a doedd 30 ddim yn gwybod neu ddim yn poeni.

- *Gwarchodfa Biosffer Dyfi Biosphere Reserve*

Doedd yr opsiwn hwn ddim yn boblogaidd iawn chwaith. O'r 130 a fynegodd eu barn roedd 63 ohonynt yn erbyn yr enw hwn. Ond rodd 42 yn hoff o'r enw.

- *Biosffer Dyfi Biosphere*

Dyma'r teitl mwyaf poblogaidd o ddigon. Rhoddodd 97 allan o 138 o bobl gylch am yr opsiwn 'ie, yn bendant, hoffi hwn yn fawr' a 'ie, dwi'n ei hoffi'n weddol'. Roedd 20 o bobl 'ddim yn gwybod/malio' pe bai'r teitl hwn yn cael ei ddewis, a dim ond 21 roddodd gylch am 'na, ddim yn hoffi hwn o gwbl' neu 'na, ddim yn hoffi hwn rhyw lawer'.

- *Bio Fro Dyfi (is-deitl "Dyfi Biosphere Area")*

Eto, doedd yr opsiwn hwn ddim yn un poblogaidd iawn. Allan o 129 o bobl a fynegodd eu barn dim ond 46 o'r rhain oedd am ddefnyddio'r enw hwn. Doedd 55 ddim yn hoff o'r opsiwn hwn.

- *Y Fro Deg (is-deitl "Dyfi Biosphere Area")*

O'r 132 ymateb, dim ond 35 o bobl oedd yn dewis y teitl hwn. Rodd 74 yn ei erbyn a 23 ddim yn gwybod neu ddim yn poeni.

Roedd y nifer o bobl a atebai bob cwestiwn yn newid oherwydd doedd rhai pobl ddim yn mynegi eu barn ar bob opsiwn.

Dengys y canlyniadau yn glir mai'r enw mwyaf poblogaidd ar gyfer yr ardal Biosffer yw 'Biosffer Dyfi Biosphere' ac felly pan gaiff yr ardal ei hail gofrestru dyma beth fydd enw'r fenter.

Adran 4.2: Yr Ardal Graidd
Teimlai 114 o bobl y dylai'r holl ardaloedd a awgrymwyd gael eu hystyried i fod yn Ardal Graidd. Yr ardaloedd yma yw Cors Fochno, y rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Pen Llyn a'r Sarnau h.y. aber a glannau'r Afon Ddyfi, sy'n parhau i'r môr hyd at 10 medr o ddyfnder; Ardal Gwarchodaeth Arbennig Dyfi a Choed Cwm Einion.

Adran 4.3: Yr Ardal Ffiniol:
Teimlai 95 o bobl y dylai'r holl ardaloedd a gynigiwyd fod oddi mewn i'r Ardal Ffiniol. Ni fynegodd eraill eu barn neu dewiswyd un neu ddau yn unig o'r opsiynau.

Adran 4.5: Yr Ardal Bontio:
Roedd 37 allan o'r 160 o bobl **eisiau** cynnwys Aberystwyth ar ardal o gwmpas yn yr Ardal Bontio yn ogystal â dalgylch yr Afon Ddyfi.

- Roedd 10 o'r rhain o Geredigion
- 8 o Wynedd
- 10 o Bowys
- 8 yn ddi-gyfeiriad
- 1 o Sir Amwythig

Allan o'r 160 roedd 105 am weld Dyffryn Dyfi (dalgylch yr Afon Ddyfi) yn unig fel Ardal Biosffer

- Roedd 18 o'r rhain o Geredigion
- 26 o Wynedd
- 37 o Bowys
- 24 yn ddi-gyfeiriad

Ni fynegodd 18 farn ar y mater.

Adran 6: A ddylai'r Bartneriaeth wneud cais am ail-ddynodiad i UNESCO?
O 160 ymateb roedd 146 ohonynt yn marcio'r opsiwn 'ie yn bendant' – credant y dylai'r Bartneriaeth wneud cais i UNESCO i gael ail gofrestru fel Ardal Fiosffer fodern. Roedd 9 arall o'r farn ei bod yn debygol y dylem wneud cais i UNESCO.

O'r 146 ymateb cadarnhaol roedd:

- 22 o Geredigion,
- 65 o Bowys
- 27 o Wynedd.
- Roedd 31 ymateb cadarnhaol arall oedd yn ddienw a di-gyfeiriad. Cafwyd ymateb cadarnhaol arall o Sir Amwythig.

Cyn belled, dim ond 2 ymateb negyddol sydd wedi dod i law ynglŷn â gwneud cais i UNESCO, y ddau yn rhoi cylch am opsiwn 1 'na yn bendant'. Daeth y ddau oddi wrth bobl yn y rhan uchaf o'r dyffryn (ym Mhowys). Teimlai un y byddai'r cynllun yn *'amharu ar yr isadeiledd diwylliannol cryf sydd eisoes yn bodoli ac nad ydi'r Biosffer wedi profi ei hun ers dynodiad y 1970au ac na ddylai gael ei adfywio.'* Teimlai'r llall nad yw'r ardal *'angen Biosffer i warchod y gwahanol drysorau sydd yn yr ardal.'* Ymddengys fod y ddau yn dangos rhyw fath o gydymdeimlad ag amcanion y Biosffer ond yn amheus o'i werth o gymharu â'r gost - *"gallwn wneud hyn beth bynnag*".

D) Deiliaid diddordeb allweddol ac ymateb corfforaethol

Rhaid nodi nad oedd y ffurflen ymateb o'r ddogfen ymgynghorol yn gofyn am wybodaeth bersonol neu alwedigaethol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd dadansoddi'r ymateb i broffil demograffig, megis ffermwyr neu bobl ieuainc. Nid oeddem am i'r ffurflen godi gormod o ofn ar bobl! Gallwn, fodd bynnag, ddod i gasgliadau o'r wybodaeth a gafwyd yn y cyfarfodydd ac mewn sgyrsiau.

Cyfarfu Partneriaeth Biosffer Dyfi ym Mis Mai 2006 i benderfynu pwy fyddai'r deiliaid diddordeb allweddol i'r Swyddog Cyfathrebu â'r Gymuned i'w targedu yn ogystal ag aelodau'r Bartneriaeth. Wedi hir drafod penderfynwyd ar y canlynol:

- <u>Ffermwyr, yn enwedig aelodau o UAC(FUW) neu NFU</u>
  Derbyniodd holl aelodau Maldwyn o'r ddwy undeb grynodeb o'r ddogfen drwy'r post yn ogystal â llythyr oddi wrth eu hundeb yn pwysleisio ar bwysigrwydd rhoi amser i ymateb i'r ddogfen. Mynychodd Andy Rowland a Delyth Richards gyfarfod UAC Maldwyn i drafod y cynllun. Roedd y presenoldeb yn wael ond roedd yr ymateb yn gadarnhaol. Anfonwyd ymateb eithaf cefnogol gan gangen UAC Ceredigion yn pwysleisio rôl cynlluniau amaeth-amgylchedd. Dywed yr ymateb swyddogol gan yr NFU yng Nghymru "*Dylai Partneriaeth y Biosffer wneud cais i UNESCO os oes cefnogaeth yn cael ei fynegi trwy'r cynrychiolydd amaeth lleol yn y bartneriaeth gydlynol*". Dangoswyd pryder fod hwn yn gynllun arall na fydd yn denu unrhyw ariannu uniongyrchol ychwanegol a nodwyd y dylai unrhyw frandio bwyd lleol fod o dan frand cryf Cymru. Mae angen gwneud llawer mwy o waith i ymglymu teuluoedd amaethyddol yn y cynllun.

- <u>Clybiau Ffermwyr Ifanc</u>
  Derbyniodd pob clwb y ddogfen ynghyd â llythyr yn cynnig cyflwyniad. Hyd yn hyn nid yw Delyth wedi derbyn unrhyw ymateb na gwahoddiad ond mae'n gobeithio y gall fynd atynt neu gynnal digwyddiad yn yr Hydref (nid yw'r clybiau'n cwrdd yn ystod yr haf). Mae'r clybiau i gyd wedi bod yn derbyn gwybodaeth gyson o unrhyw ddatblygiadau e.e. cyfarfodydd cyhoeddus.

- <u>RSPB</u>
  Roedd yr ymateb o warchodfa Ynyshir yn ddigon llugoer ond roedd Cyfarwyddwr Cymru i'w weld yn llawer mwy brwdfrydig.

- <u>Ysgolion Lleol</u>
  Yn Haf 2006, bu Delyth yn cymryd rhan mewn gweithdy yn Ysgol Bro Ddyfi. Rôl Delyth oedd siarad gyda'r plant am brosiect y Biosffer a gweld faint o wybodaeth oedd ganddynt am y cynllun a beth oedd eu teimladau am y dyffryn. Gobeithia Delyth ddychwelyd i ysgolion Dyffryn Dyfi yn y flwyddyn ysgol newydd gyda matiau chwarae mawr ac arnynt lun o'r dyffryn o'r awyr. Y bwriad yw tynnu sylw'r plant at y dyffryn a'u cael i ddeall pa mor arbennig ydyw, ac i ystyried beth yw eu cysylltiadau nhw â'r ardal. Dyma hefyd oedd nod prosiect ffotograffig yn yr ysgolion uwchradd ym Mai a Mehefin 2006. Mae rhai o'r lluniau a dynnwyd gan y plant a ffotograffydd proffesiynol yn dal i gael eu harddangos yn Ysgol Bro Ddyfi.

- <u>Aelodau Ecodyfi</u>
  Derbyniodd yr holl aelodau'r Ddogfen Ymgynghorol drwy'r post neu dros y we ac fe anfonwyd gwybodaeth gyson iddynt am ddigwyddiadau, cyhoeddiadau ayb. Ysgrifennodd Ecodyfi i *"groesawu'r cynllun yn galonnog y cynllun i ail gofrestru Biosffer Dyfi fel Biosffer 'fodern' gyda phwyslais ar ddatblygiad cynaliadwy"* ac i gynnig newid eu cyfansoddiad er mwyn eu galluogi i chwarae mwy o ran pe byddai hynny o gymorth.

- Cynghorau Tref
  - **Aberystwyth:** derbyniodd y cyngor gyflwyniad yn 2006 ac fe ymatebodd trwy ddweud, *"yn dilyn eich cyflwyniad diweddar i Gyngor Tref Aberystwyth, penderfynwyd y bydd y cyngor hwn yn cefnogi eich cais i greu gwarchodfa newydd Biosffer Dyfi".*
  - **Machynlleth:** derbyniodd y cyngor wybodaeth ar yr ail-ddynodi ond nid ydynt eto wedi cael cyflwyniad nac wedi ymateb.

- Cynghorau Cymuned
  - **Aberdyfi:** Cafodd y cyngor gyflwyniad a chopïau o'r ddogfen. Yn ogystal, mynychodd llawer o'r aelodau rai o'r cyfarfodydd cyhoeddus. Ymddengys bod y 30 aelod presennol yn gefnogol ac roeddynt am gael mwy o wybodaeth ond ni chafwyd ymateb swyddogol oddi yno.
  - **Borth:** Wedi cael cyflwyniad ond nid ydym wedi derbyn ymateb swyddogol eto.
  - **Cadfarch:** Wedi derbyn y ddogfen ond heb gael cyflwyniad. Nid ydym wedi cael ymateb.
  - **Ceulanmaesmawr:** Wedi derbyn y ddogfen ond heb gael cyflwyniad. Nid ydym wedi cael ymateb.
  - **Corris:** Wedi derbyn copïau o'r ddogfen a chael cyflwyniad, ond yn ddiweddar iawn. Rydym yn disgwyl cael ymateb cadarnhaol.
  - **Glantwymyn:** Wedi cael cyflwyniad y Gaeaf diwethaf ac yn ymddangos i fod yn gefnogol cyn belled ag y bydd y cysyniad yn aros yn wirfoddol. Mae'r cyngor ers hynny wedi anfon llythyr yn cefnogi'r cynllun ac yn dweud fod *"yr ardal angen mwy o adnabyddiaeth fel lle arbennig i bobl a natur".*
  - **Genau'r Glyn:** Wedi derbyn y ddogfen ond heb gael cyflwyniad ac nid ydym wedi cael ymateb.
  - **Llanbrynmair:** Y cyngor wedi derbyn cyflwyniad ac wedi ymateb yn gefnogol i ail-ddynodi'r Biosffer gan ddweud y dylai *"yr laith Gymraeg, gweithgareddau Cymraeg a phob math o ganu gael eu gwarchod, eu datblygu a'u hybu, a dylid hefyd ddatblygu llwybrau cerdded ar gyfer cymunedau lleol"*. Awgrymwyd hefyd y dylid *"cyhoeddi llyfr ar adeiladau hanesyddol".*
  - **Llangynfelin:** Wedi derbyn y ddogfen ond heb gael cyflwyniad ac nid ydynt wedi ymateb.
  - **Mawddwy:** Delyth wedi rhoi cyflwyniad i'r cyngor yn 2006 a daeth cynrychiolwyr i'r digwyddiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ninas Mawddwy. Y rhan fwyaf o'r aelodau o gefndir amaethyddol a'u prif bryder yw y bydd y cynllun yn eu gorfodi i newid eu ffordd o ffermio a rheoli'r tir.
  - **Pennal:** Wedi derbyn dogfen ond heb gael cyflwyniad ac nid ydynt wedi anfon ymateb.
  - **Ysgubor-y-coed:** Wedi derbyn y ddogfen a chyflwyniad yn 2006 a mynychodd rhai o'u haelodau ambell i ddigwyddiad cyhoeddus. Nid oes ymateb swyddogol wedi dod o'r cyngor, ond yn ystod y cyflwyniad ymddangosodd aelodau yn gefnogol ac am gael mwy o wybodaeth.

- Siambr Fasnach
  - **Aberdyfi:** Cafodd Delyth sgwrs anffurfiol gyda'r grŵp ac ymddengys eu bod yn gefnogol. Roedd un wraig fusnes yn bryderus am ddyfodol y cwrs golff oherwydd bod lefel y môr yn codi a gobeithiai y gallai'r cynllun hwn gefnogi eu cais am amddiffynfa rhag llifogydd.
  - **Machynlleth:** Roedd Delyth i fod i roi cyflwyniad ond fe gafodd ei ohirio. Nid oes cyflwyniad arall wedi ei drefnu eto ac nid ydynt wedi anfon ymateb swyddogol.

- Canolfan Ryngwladol i Ddiogelu Tirweddau (ICPL) (International Centre for Protected Landscapes)
  Ysgrifennodd Liz Hughes o ICPL lythyr yn cefnogi'r ail-ddynodiad yn dweud ei bod yn *"ysgrifennu ar ran ICPL yn cynnig cefnogaeth i'r cais i UNESCO am warchodfa Biosffer ehangach yn Nyffryn Dyfi".* Mae'n mynd yn ei blaen i ysgrifennu am y posibilrwydd o gynnwys Aberystwyth yn yr ardal bontio a dywed *"rydym yn cynnig ei bod yn gwbl anaddas i ymestyn y cynllun hwn y tu hwnt i ddalgylch yr Afon Ddyfi"*

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Adran Gynllunio a Thrafnidiaeth)
  Derbyniwyd llythyr o gefnogaeth gan Bennaeth yr Adran yn datgan *"hoffwn gymryd y cyfle hwn i gryfhau ein cefnogaeth i Bartneriaeth Biosffer Dyfi a'r broses o gynllunio cais i ail-ddynodi Dyffryn Dyfi fel Ardal Fiosffer Fodern"* Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud *"Fel yr ydych yn gwybod, mae'r Awdurdod yn gefnogol i'r prosiect ac yn frwd i gefnogi'r gwaith i sicrhau cefnogaeth leol i'r prosiect"*

- Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi
  Ysgrifennodd Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi lythyr o gefnogaeth i'r ail-ddynodiad yn dweud "*Creda'r Bartneriaeth y bydd ail gofrestru Biosffer Dyfi gydag UNESCO fel Biosffer 'fodern' gyda ffocws ar ddatblygiad cynaliadwy yn ddim ond mantais i'r ardal gyfan*".

- Sefydliadau a Busnesau eraill sydd wedi ymateb yn gadarnhaol:
  - **Machinations**, Llanbrynmair
  - **Menter Aberystwyth**
  - **Dyfi Discoveries**, Aberdyfi
  - **Tŷ Mawr Holiday Home Park**, Ynyslas
  - **Insight Insulations Ltd**, Aberhosan
  - **Kelvin Jenkins Jewellery**, Machynlleth
  - **Rhys Huws** (cyfieithydd), Talybont
  - **Gwesty'r Wynnstay** , Machynlleth
  - **Grŵp 'Greener Aberystwyth'**
    Derbyniodd y grŵp hwn gyflwyniad ac fe ymatebwyd trwy lythyr yn dweud *"Mae'n anodd rhagweld yn union pa fanteision penodol a ddaw yn sgil y cynllun, serch hynny, gall ehangu'r ardal i gynnwys Aberystwyth olygu manteision i warchod ein tiroedd glas a chael gwell rheolaeth arnynt, felly rydym yn cefnogi'r cynnig yn fras"*
  - **Canolfan y Dechnoleg Amgen** (Aelod o'r staff)

- **Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW)**, Dolgellau. Mae cangen Meirionnydd wedi ymateb yn gadarnhaol a dweud fod "*CPRW yn gefnogol i ail gadarnhau Statws Biosffer i ardal ehangach dalgylch cyfan yr Afon Ddyfi. Nodwn fod gan yr ardal ehangach ddilysrwydd, nid yn unig yn nhermau diffiniad adolygedig UNESCO ond yn nhermau tirwedd ac uned ecolegol sy'n gweithredu*"

Mae Adran 5.2 o'r ddogfen ymgynghorol yn crynhoi rhai sylwadau cynnar nodweddiadol a dderbyniwyd gan unigolion ynghyd ag ymatebion oddi wrth y Bartneriaeth.

DD Tabl digwyddiadau cymunedol

Digwyddiad	Lleoliad	Dyddiad	Nifer yn bresennol
Stondin mewn sioe amaethyddol	Talybont	26.8.06	
Seminar mapio diwylliannol ar gyfer pobl sydd wedi symud i'r ardal am resymau ecolegol	Y Llew Gwyn, Machynlleth	28.9.06	13
Seminar Amaethyddiaeth a Choedwigaeth	Y Plas, Machynlleth	25.9.06	15
Sefydliad y Merched Eglwysfach	Eglwysfach	2.10.06	25
Sefydliad y Merched Llandre	Llandre	4.10.06	19
Cyfarfod cyhoeddus Llanbrynmair	Canolfan Gymunedol	5.10.06	10
Cyfarfod Cyhoeddus Glantwymyn	Canolfan Gymdeithasol Glantwymyn	6.10.06	4
Cyfarfod Cyhoeddus Dinas Mawddwy	Neuadd y pentref Dinas Mawddwy	10.10.06	21
Seminar mapio diwylliannol ar gyfer y Cymry sydd wedi byw yma ers cenedlaethau	Y Llew Gwyn, Machynlleth	12.10.06	5
Cyfarfod Cyhoeddus Talybont Thema: Amaethyddiaeth Gofynnwyd am fwy o wybodaeth	Neuadd Goffa, Talybont	18.10.06	25
Cyfarfod Cyhoeddus Machynlleth Thema: Yr Economi	Senedd-dy Owain Glyndŵr	26.10.06	40+
Cyfarfod Cyhoeddus Taliesin Thema: Yr amgylchedd	Neuadd Llanfach Hall	30.10.06	27
Cyfarfod Cyhoeddus Corris Thema: Yr amgylchedd	Ysgol Gynradd	2.11.06	25
Cyngor Cymuned Borth	Y Borth	6.11.06	12
Seminar ar ddiwylliant Cymreig	Machynlleth	8.11.06	tua 14
Dosbarth astudiaethau gwledig	Prifysgol Aberystwyth	15.11.06	10
Cyfarfod Cyhoeddus Aberdyfi	Aberdyfi	16.11.06	35
Cyfarfod Cyhoeddus Borth	Y Borth	22.11.06	
Cyngor Cymuned Mawddwy	Dinas Mawddwy	6.12.06	12
Menter Aberystwyth	Aberystwyth	20.12.06	

Cyngor Cymuned Glantwymyn	Glantwymyn		10
Cyngor Cymuned Ysgubor-y-coed	Eglwysfach	10.1.07	8
Pwyllgor UNESCO Cymru	Aberystwyth	12.1.07	11
Cyngor Cymuned Aberdyfi	Aberdyfi	15.1.07	30
Clwb Probws Bro Ddyfi Ymddengys y grŵp yn gefnogol	Machynlleth	30.1.07	35
Gwerin y Coed (10-12 oed). Tro 1af i ddangos y map o'r awyr: poblogaidd iawn a ffordd dda i weithio gyda phobl ifanc	Machynlleth	7.2.07	20 (?)
Grŵp Economi a Gwaith	Machynlleth	12.2.07	7
Cyngor tref Aberystwyth	Aberystwyth	12.2.07	8
Greener Aberystwyth	Aberystwyth	20.2.07	10
Dyddiau agored	Llanbrynmair	8.5.07	tua 18
	Talybont	9.5.07	
	Machynlleth	10.5.07	tua17
	Dinas Mawddwy	14.5.07	tua 8
Gwerin y Coed 12-16 oed	Machynlleth	16.5.07	
Diwrnod agored	Aberdyfi	25.5.07	
Clwb y Ddôl	Llanbrynmair	31.5.07	35
Cyflwyniad i berson yn Ynyslas a'i chymdogion		1.6.07	4
Cyngor Cymuned Llanbrynmair	Llanbrynmair	6.6.07	10
Siambr Fasnach Aberdyfi	Aberdyfi	20.6.07	11
Diwrnod agored	Corris	21.6.07	tua 7
Galw i weld staff CAT yn ystod yr awr ginio	Pantperthog	27.6.07	tua 30
Sefydliad y Merched Aberdyfi	Aberdyfi	27.6.07	40
Cyngor Cymuned Corris	Corris	6.9.07	6